CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor, nos Lun 8 Ionawr 2018**

**Presennol:** Cadeirydd y Cyng I Davies, y Cyngr Ken Symmons, Mrs Eleri Davies, Hywel Davies a Mrs N Redmond

CS Clive Davies

Clerc

Roedd y Rhingyll Delme Jones a PCSO Mathew Kieboom wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod i roi'r newyddion diweddaraf am faterion plismona cymunedol. Nodwyd ei bod yn bosibl i eiddo'r Cyngor, fel yr aradr, placiau ac yn y blaen, gael ei marcio â SelectaDNA, a fyddai'n caniatáu olrhain yr eiddo nôl at y Cyngor pe bae'n cael ei ddwyn. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon rhestr o eitemau ar y Rhingyll Jones.
GWEITHREDU: Rhestr i'r Rh Jones GAB: y Clerc.

Gobeithid y byddai ymddiriedolwyr ar gyfer y cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol yn dod ymlaen gan fod lleoliadau addas eisoes wedi'u hasesu. Byddai unrhyw wybodaeth a grynhoid yn helpu gostwng terfyn cyflymdra wrth yr ysgol.

Diolchwyd i'r Rh Delme Jones a PCSO Mathew Kieboom am eu hamser ac yma gadawsant y cyfarfod.

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr Mrs K Morgan, Mrs A Edwards a Mrs L Holder

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Datgelodd y Cyng I Davies, Cadeirydd, fuddiant personol yn eitem 9,
Datgelodd y Cyng i H Davies fuddiant personol a rhagfarnol yn eitem 9, dyfynbris trac.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Cadarnhaodd CS Clive Davies na fyddai Cyngor Sir Ceredigion yn gosod terfyn cyflymdra 40mya wrth y groesfan yng Nghroes-y-llan gan nad oedd ar hyn o bryd yn bodloni'r meini prawf. Byddai hyn yn cael ei adolygu gan CSC ymhen 12 mis.

Gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn dosrannu arian yn ei gyllideb fel arian cyfatebol ar gyfer adeiladu llwybr troed yn Llechryd. Dywedodd fod angen gwirfoddolwyr o hyd i weithredu'r cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol, a dywedodd fod y mastiau telathrebu y tu ôl i'r Saith Seren i gael eu codi dan hawliau datblygu a ganiateir. Roedd wedi cael un enwebiad i'w ystyried ar gyfer gwahoddiad i'r Arddwest Frenhinol.
Diolchwyd i'r CS Clive Davies am ei waith, ac yna gadawodd y cyfarfod.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng H Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng N Redmond, a chytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**
Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

*Taliadau*

| *8.01.18* | *Talai* | *Am* | *Banc* |
|---|---|---|---|
| | Abacus Cleaning Services | Bloc toiledau a chlirio sbwriel | 200.00 |
| | Swallow Office Supplies | Inc / Papur | 151.56 |
| | SSE | Trydan i'r bloc toiledau | 12.04 |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd | 16.00 |
| | Dŵr Cymru Cyf | Dŵr i'r bloc toiledau | 316.88 |
| | Telemat | Diogelu'r gliniadur rhag feirysau (rhyddhau wrth gael yr anfoneb) | 20.95 |
| | S Davies | Swyddfa yn y Cartref / cêbl pŵer newydd i'r gliniadur | 24.01 |
| | HMRC | | 5.40 |
| | S E Davies | Cymhwyso cyflog Rhagfyr | 9.18 |
| 30.01.18 | S E Davies | Cyflog | 327.18 AS |

Archeb Sefydlog newydd i gael ei llofnodi ar gyfer cyflog y Clerc
Llythyr o ddiolch am grant/rhodd oddi wrth CAB - Nodwyd

*Cynigiwyd gan y Cyng Mrs E Davies, eiliwyd gan y Cyng K Symmons, cytunwyd ond ymataliodd y Cyng I Davies.*

*Dyfynbris y trac*
*Aeth y Cyng H Davies allan o'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar yr eitem hon.*
Roedd sawl cwmni wedi cael gwahoddiad i gynnig dyfynbris. Roedd un dyfynbris wedi dod oddi wrth I ac E Davies. Ar ôl trafod cytunodd y Cyngor i dderbyn y dyfynbris o £9263 + TAW am osod tarmac ar y llwybr. Byddai'r arian yn dod o gronfeydd wrth gefn.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r contactwyr GAN: Y Clerc

*Dyfynbris ar gyfer Adeilad y Mileniwm*
Roedd sawl cwmni wedi cael gwahoddiad i gynnig dyfynbris am y gwaith o drwsio to'r adeilad. Roedd un dyfynbris wedi dod am y gwaith, a dywedwyd bod disgwyl i ddyfynbris pellach gyrraedd. Cytunwyd i ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i adolygu'r 2 ddyfynbris (y ddau gan fusnesau lleol uchel eu parch) a gosod y contract er mwyn cael cychwyn y broses. Byddai'r arian yn dod o gronfeydd wrth gefn pe na bae'n bosibl talu am y gwaith o'r gyllideb gynnal a chadw gyffredinol.
GWEITHREDU: Adolygu'r dyfynbrisiau a gosod y contract GAN: Y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc
*Gofynnodd y Cyng K Symmons am i'r cofnodion ddangos nad oedd ef wedi cymryd dim rhan yn y penderfyniadau nac wedi pleidleisio ar yr eitem hon.*

*Dyfynbrisiau am dorri porfa*
Roedd y Clerc wedi darparu tabl yn dangos yr amrywiol gontractwyr a'r costau cysylltiedig ar gyfer contract 2018/19. Darparwyd un dyfynbris gan y Clerc yn y cyfarfod, ond ar ôl ystyried y dyfynbris cytunwyd nad oedd digon o wybodaeth wedi'i hamgáu gyda'r dyfynbris i'w ychwanegu at y rhestr o gontractwyr posibl. Ar ôl trafod cytunwyd y byddai'r Clerc yn gofyn am eirda ar gyfer y contractiwr dewisol ac yn cysylltu â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i adolygu'r rhain a chynnig y contract os byddai'r geirdaon yn rhai da. Byddai'r contract yn cael ei gynnig ar y sail y byddai'r contractiwr yn gwaredu unrhyw beth yn deillio o unrhyw waith mewn ffordd sy'n cydymffurfio â rheoliadau gwastraff cyfredol.
GWEITHREDU: Cysylltu â chanolwyr ac â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd: GAN: Y Clerc

*Yr Aradr*
Roedd sawl cwmni wedi cael gwahoddiad i gynnig dyfynbris am y gwaith, ac roedd 2 ddyfynbris wedi cyrraedd. Ar ôl trafod cytunwyd i gynnig y contract am y gwaith symud ac adnewyddu i L J Services Powder Coating. Nodwyd bod Cyngor Cymunedol Llandudoch wedi defnyddio'r cwmni a hefyd fferm a oedd yn adnabyddus i'r Clerc. Byddai cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio os na fyddai'r gyllideb gynnal a chadw gyffredinol yn gallu talu'r costau.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r contractiwr GAN: Y Clerc

*Cyllideb 2018/19*
Roedd y Cyngor wedi darllen drwy'r ffigurau a gynigiwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2017, a chan fod dyfynbrisiau wedi dod ac wedi eu gosod gallai'r Clerc nawr ddarparu amcanbris cliriach o sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn. Nodwyd y gallai'r Cyngor Cymuned ariannu gwaith llwybrau priffyrdd dan ad 137 yn unig, ac roedd y terfyn ar gyfer hynny wedi'i osod yn £7.86 am bob etholwr, a chyda 918 o etholwyr ar 5.1.18 y swm oedd £7215.48. Ar ôl trafod, lle cytunwyd bod angen rhai cronfeydd wrth gefn, cynigiodd y Cyng Mrs E Davies y dylid gofyn am braesept o £30,000. Eiliwyd gan y Cyng H Davies, a phenderfynwyd yn unfrydol.
GWEITHREDU: Cyflwyno cais i CSC GAN: Y Clerc

*Cofrestr o Asedion* – Y Clerc i ddiweddaru hon gyda'r bwriad o gael dyfynbrisiau yswiriant.

Roedd y Clerc heb gwrdd â'r Cyng Mrs A Edwards ynglŷn â *PAYE.*

*Cais y Clerc am wyliau*
Cytunwyd gan bawb.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Nodi ymateb CSC i'r cais am derfyn cyflymdra wrth groesffordd Croes-y-llan fel y gwelir yn adroddiad y Cynghorydd Sir.

Byddai'r Clerc yn cysylltu â Tai Ceredigion i weld a ellid gosod y blychau blodau yn barod i'w plannu yn y gwanwyn. Dywedodd, pe bae'r Cyngor yn dymuno gosod mainc wrth yr arhosfan bysiau y byddai angen i hynny hefyd gael ei gytuno gan Tai Ceredigion, ac efallai y byddai angen symud y bin wrth ymyl yr arhosfan bysiau. Cytunwyd y byddai'r Cynghr yn edrych ar y safle cyn cyfarfod mis Chwefror.

**11. Amwynderau**
*Hysbysfyrddau*
Parc ceir
Roedd llythyr wedi dod oddi wrth 'arts4wellbeing' yn cynnig cymorth i adnewyddu'r hysbysfwrdd.
Cytunwyd i groesawu'r cynnig o gymorth ac y byddem yn gofyn i 'arts4wellbeing' ddarparu costau ar gyfer y prosiect.
GWEITHREDU: Cysylltu ag 'arts4wellbing' GAN: Y Clerc

Roedd 'Earth Anchors' wedi codi rhai cwestiynau am ddyluniad y logo ar yr hysbysfwrdd newydd. Roedd y cwmni hefyd wedi dweud na fyddai'r logo a ddarparwyd yn atgynhyrchu'n dda gan fod y bwrdd o safon wael. Cytunwyd gan bawb ei bod yn well cael y logo ar yr hysbysfwrdd ac y byddai'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc yn cael eu hawdurdodi i geisio dod o hyd i ffeil o well safon neu gynhyrchu un (yn costio dim mwy na £100).
GWEITHREDU: Ymateb i'r cwmni a cheisio cael neu greu ffeil well o'r logo. GAN: Y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc

*Angorau Gôl*
Roedd y Clerc wedi ymchwilio i angorau gôl a chytunwyd y dylid archebu'r nwyddau Spirafix (yn cael eu gwerthu fel set o 4) am £65.94 gan gynnwys eu dosbarthu.
GWEITHREDU: Archebu'r nwyddau GAN: Y Clerc

**12. Prosiectau'n Parhau**
*Rhestr y Cofio ar gyfer y Fynwent*
Roedd gwaith ymchwilio cychwynnol yn awgrymu bod Rhestr y Cofio yn yr ysgol yn cynnwys enwau cyn ddisgyblion yn unig, a bod trigolion eraill o'r pentrefi wedi colli eu bywydau yn y rhyfeloedd. Cytunwyd y dylid gwneud gwaith pellach i gadarnhau hyn a chael rhestr gyflawn o enwau.
GWEITHREDU: Gwaith ymchwil pellach GAN: Y Clerc

**13. Digwyddiadau**
Dim.

**14. Adroddiad cyfarfodydd**
Dywedodd y Cyng K Symmons, er ei fod yn mynd i gyfarfodydd 'Cyfeillion Ysbyty Aberteifi' lle'r oedd y ganolfan iechyd newydd yn cael ei thrafod, roedd y wybodaeth ar hyn o bryd yn gyfrinachol ac ni allai gyfleu'r wybodaeth i'r Cyngor.

**15. Gohebiaeth / Gohebiaeth e-bost**
Gwahoddiad i fynd i gyfarfod ag Arweinydd CSC, y Cyng Ellen ap Gwynn, a'r Prif Weithredwr – 16 Ionawr 2018 am 6.30pm, Neuadd Ysgol Bro Teifi. Dywedodd y Cadeirydd y gallai fynd.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*Rhwydwaith Trawma Difrifol i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys* – dyddiad olaf 5 Chwefror 2018.

Cytunwyd mai Abertawe fyddai'r lle gorau ar gyfer y Ganolfan Trawma, gan y byddai'n gwasanaethu ardal ehangach o Dde Cymru ac yn golygu llai o amser teithio.
GWEITHREDU: Ymateb i'r ymgynghoriad GAN: Y Clerc

*Llythyr oddi wrth Un Llais Cymru - nodwyd*

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**

Dywedodd y Cadeirydd fod y goeden a oedd wedi disgyn ar y cae chwarae yn cael ei symud bob yn dipyn ond bod yr ardal yn ddiogel.

Sylwyd bod arwydd ffordd Preseli View wedi torri.
GWEITHREDU: Cysylltu â Tai Ceredigion GAN: Y Clerc

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5.02.18 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.12pm*